Cynllun Cyhoeddiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mabwysiadwyd:

Llofnod: _____ (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad

Dyma Gynllun Cyhoeddiadau Ysgol Gyfun Rhydywaun

Cyfeiriad llawn yr ysgol ar gyfer anfon ceisiadau am wybodaeth yw:

Ysgol Gyfun Rhydywaun
Rhodfa Lawrence
Penywaun
Aberdâr
RhCT
CF44 9ES

Y person sydd â chyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r cynllun hwn yw'r Pennaeth, **Mr Mark Jones.**

Cyflwyniad: Beth yw cynllun cyhoeddiadau a beth yw'r rhesymeg dros ei ddatblygu?

Un o nodau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (a gyfeirir ati fel DRG yng ngweddill y ddogfen hon) yw bod angen i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, fod yn glir ac yn weithredol am y wybodaeth maent yn fodlon cyhoeddi.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid creu cynllun cyhoeddiadau sydd yn amlinellu:

● Dosbarthiadau'r wybodaeth rydym yn cyhoeddi neu yn bwriadu cyhoeddi

● Natur cyhoeddi'r wybodaeth

● Os yw'r wybodaeth ar gael am gost neu'n ddi-dâl.

Mae'r cynllun yn ymdrin â gwybodaeth a gyhoeddwyd eisoes a'r wybodaeth bwriedir ei gyhoeddi yn y dyfodol. Mae'r holl wybodaeth sydd yn ein cynllun cyhoeddiadau ar gael ar ffurf papur neu electronig yn ôl y galw.

Mae rhai darnau o wybodaeth nad ydym yn gallu cyhoeddi oherwydd mae'n wybodaeth bersonol.

Mae'r cynllun hon yn cydymffurfio â'r cynllun model a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Categorïau o wybodaeth a gyhoeddir

Mae'r cynllun cyhoeddiadau yn eich hysbysu am y wybodaeth a gyhoeddir gan yr ysgol (neu wedi cyhoeddi'n ddiweddar) neu'r hyn byddwn yn cyhoeddi yn y dyfodol - rhennir hyn i gategorïau gwahanol a elwir yn ddosbarthiadau. Mae'r dosbarthiadau o wybodaeth sydd ar gael wedi eu rhannu i bedwar ardal wahanol:

● Prosbectws Ysgol – **gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol**

● Dogfennau'r Corff Llywodraethol **- gwybodaeth a gyhoeddir mewn adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr a dogfennaeth eraill sy'n gysylltiedig â'r Corff Llywodraethol.**

● Disgyblion a Chwricwlwm **- gwybodaeth am bolisïau sy'n gysylltiedig â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.**

● Polisïau ysgol **- gwybodaeth am bolisïau sydd yn gysylltiedig â'r ysgol yn gyffredinol.**

Sut i wneud cais am wybodaeth

Rydych yn gallu gwneud cais am y wybodaeth a fynnoch o'r manylion cyswllt isod.

Os nad yw'r wybodaeth ar gael drwy'r cynllun hon ac nid yw ar gael ar wefan yr ysgol, mae hawl gennych i ofyn amdani os yw'r wybodaeth gan yr ysgol. Gellir cysylltu â'r ysgol drwy ffôn, ffacs, e-bost neu lythyr.

Ebost: ysgol@rhydywaun.org

Ffôn: 01685 813500

Ffacs: 01656 812208[1]

Cyfeiriad: Ysgol Gyfun rhydywaun, Rhodfa Lawrence, Penywaun, Aberdâr, RhCT, CF44 9ES

Er mwyn helpu ni brosesu eich cais yn gyflym, nodwch yn glir ar unrhyw ohebiaeth "**CAIS DAN GYNLLUN CYHOEDDIADAU"** mewn llythrennau bras

Talu am wybodaeth

Darperir copïau sengl o'r wybodaeth o fewn y cynllun cyhoeddiadau am ddim oni bai nodir yn wahanol. Os yw eich cais yn golygu bod angen i ni argraffu neu lungopïo llawer o dudalennau, os oes rhaid i ni dalu'n fwy na chost stamp arferol neu os yw'r eitem â chost iddo, e.e. cyhoeddiadau penodol neu fideo, cewch eich hysbysebu o'r gost cyn ein bod yn prosesu eich cais. Caiff eitemau a godir cost amdanynt eu nodi â'r gost yn dilyn disgrifiad o'r eitem.

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar ein gwefan ar gael yn rhad ac am ddim.

Dosbarthiadau'r Wybodaeth a Gyhoeddir

Prosbectws Ysgol – gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol

Dosbarth	**Disgrifiad**
Prosbectws Ysgol	Isod rhestrir cynnwys statudol prosbectws yr ysgol. Caiff wybodaeth ychwanegol ei chynnwys yn ôl disgresiwn yr ysgol - enw, math yr ysgol a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffacs ac e-bost. - enw'r Pennaeth a Chadeirydd y Corff Llywodraethol - gwybodaeth am feini prawf derbyn - ethos a gwerthoedd yr ysgol. - yr addysg Grefyddol a ddarperir, hawl rhieni i eithrio eu plant o Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd a'r ddarpariaeth wahanol caiff

[1] p

	y disgyblion hyn. - gwybodaeth am bolisi'r ysgol ar gyfer darparu am ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol - Nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr a chyfraddau absenoldebau gydag a heb awdurdod. *Pan fydd y wybodaeth hon ar gael wedi i'r ysgol gyrraedd diwedd y Cyfnod Allweddol perthnasol:* - Asesiadau Diwedd Cyfnod Allweddol ar gyfer y Cyfnodau Allweddol perthnasol, gydag ystadegau crynodol Cenedlaethol - Defnydd y Gymraeg - Canlyniadau TGAU/galwedigaethol yr ysgol, canlyniadau'r AALl a Chenedlaethol - Crynodeb o ganlyniadau TAG A/AS yr ysgol, yr AALl a Chenedlaethol. - Canlyniadau astudiaethau galwedigaethol - cyrchfan disgyblion sydd wedi gadael yr ysgol

Adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r Corff Llywodraethol - mae'r adran hon yn cyflwyno'r wybodaeth a gyhoeddir mewn adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr ac mewn dogfennau eraill y Corff Llywodraethol.

Dosbarth	**Disgrifiad**
Adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr	Isod rhestrir cynnwys statudol adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni. Caiff wybodaeth ychwanegol ei chynnwys yn ôl disgresiwn yr ysgol -manylion am aelodau'r corf llywodraethol gan gynnwys enw a chyfeiriad y cadeirydd a'r clerc. -Pan yw'n berthnasol: datganiad ar gynnydd gyda chynllun gweithredu ôl-arolwg. - datganiad cyllidol, gan gynnwys unrhyw roddion a gafodd yr ysgol ac unrhyw daliadau a wnaethpwyd i Lywodraethwyr am unrhyw dreuliau - gwybodaeth am ddiogelwch yn yr ysgol. - gwybodaeth am weithrediad polisi'r Llywodraethwyr ar ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac unrhyw addasiadau a wnaethpwyd i'r polisi dros y flwyddyn ddiwethaf. - disgrifiad trefniadau mynediad disgyblion gydag anableddau, manylion y camau i osgoi bod disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. - cynllun hygyrchedd a chynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd pobl anabl i'r ysgol. - effaith datblygiad proffesiynol athrawon ar ddysgu ac addysgu - nifer y disgyblion ar y gofrestr a chyfraddau absenoldebau gydag a heb ganiatâd. - targedau'r ysgol ar gyfer asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3. *Pan yw'r Cyfnodau Allweddol perthnasol yn bresennol yn yr ysgol, ceir yr ychwanegiadau isod i'r wybodaeth a ddarperir:* - Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y Cyfnodau Allweddol gwahanol, gydag ystadegau crynodol cenedlaethol. - targedau'r ysgol ar gyfer arholiadau cyhoeddus yn CA4.

	- canlyniadau TGAU neu lefel gyfatebol gyda chanlyniadau cymharol yr AALl a chenedlaethol. - Canlyniadau TAG A/AS a chanlyniadau cymwysterau galwedigaethol yn yr ysgol ac yn genedlaethol - nifer y disgyblion sydd yn astudio ac yn ennill cymwysterau galwedigaethol

Offeryn Llywodraeth	- Enw'r ysgol - Natur a math yr ysgol - Enw'r corf Llywodraethol - Cyfansoddiad y cord Llywodraethol - Enw'r person gellid apwyntio mathau gwahanol o Lywodraethwyr - Dyddiad gweithredu'r offeryn.
Munudau[1] cyfarfodydd y corf Llywodraethol ac is-bwyllgorau	- Munudau o gyfarfodydd Llywodraethwyr ac is-bwyllgorau

Polisïau Disgyblion a Chwricwlwm - ceir wybodaeth yn yr adran hon ynglŷn â pholisïau sy'n berthnasol i ddisgyblion a chwricwlwm yr ysgol.

Dosbarth	Disgrifiad
Cytundeb ysgol-cartref	Datganiad ysgrifenedig o nodau ac amcanion yr ysgol, cyfrifoldebau'r ysgol, cyfrifoldebau rhieni a disgwyliadau'r ysgol o'r disgyblion e.e. trefniadau gwaith cartref.
Polisi Cwricwlwm	Datganiad ar bolisi ar gyfer cwricwlwm yr ysgol, y pynciau a gwybodaeth am unrhyw feysydd llafur a ddilynir gan ddisgyblion.
Polisi Addysg Rhyw	Datganiad a pholisi ysgrifenedig am addysg rhyw.
Addoli ar y cyd	Trefniadau'r ysgol am gyd-addoliad a myfyrdod dyddiol
Disgyblaeth (disgyblion)	Datganiad o egwyddorion cyffredinol ar ymddygiad a disgyblaeth gan gynnwys polisi wrth-fwlio.
Addysg Gyrfâu	Datganiad o'r rhaglen addysg gyrfâu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4.

Polisïau Ysgol - Rhoddir gwybodaeth yn yr adran hon am bolisiau sy'n berthnasol i'r ysgol.

Dosbarth	Disgrifiad
Adroddiadau Arolygon gan Estyn	Adroddiad arolygiad yr ysgol a chrynodeb yr adroddiad lle bo'n berthnasol
Cynllun gweithredu ôl-arolwg	Cynllun yn nodi'r camau i'w gymryd yn dilyn arolygiad gan Estyn lle bo'n berthnasol.
Polisïau codi tâl a dilead	Datganiad o bolisi'r ysgol ynglŷn â chodi tâl a dilead ar gyfer unrhyw gostau opsiynol ychwanegol e.e. cyrsiau preswyl ayb.
Amserau'r dydd	Manylion am amserau sesiynau ysgol ynghyd â dyddiadau tymor a gwyliau.
Anghenion	Polisi'r ysgol ynglŷn â darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion

dysgu Ychwanegol	dysgu ychwanegol.
Cynllun hygyrchedd	Cynllun ysgrifenedig ar hygyrchedd i ddisgyblion ag anableddau.
Polisi Iechyd a Diogelwch	Polisi cyffredinol yr ysgol ynglŷn ag iechyd a diogelwch yn y gweithle i weithwyr cyflogedig (Ac eraill) a threfniadau gweithredu'r polisi.
Polisi diogelu plant	Datganiad am drefniadau diogelu plant cyffredinol
Polisi Cwyno	Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion
Gwerthuso staff (Rheoli Perfformiad)	Gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethwyr am Reoli Perfformiad
Ymddygiad staff, disgyblaeth ac achwyniad	Gweithdrefnau ynglŷn â rheoleiddio ymddygiad a disgyblaeth staff ysgol a gweithdrefnau er mwyn i staff gwneud iawn neu achwyniad.

Adborth a Chwynion

Croesewir unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r cynllun hwn. Os ydych am wneud sylwadau am y cynllun neu os ydych eisiau mwy o gymorth neu os ydych am wneud cwyn dylid cyfeirio hyn yn gyntaf at Bennaeth yr Ysgol.

Os nad ydych yn hapus â'r cymorth a gawsoch neu os nad ydym wedi llwyddo i fodloni eich cwyn ac rydych yn teimlo fod angen gwneud cwyn ffurfiol yna dylech chi ysgrifennu at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Hon yw'r asiantaeth sy'n sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac yn delio â chwynion ffurfiol.

Manylion cyswllt:

Information Commissioner, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

neu

Llinell Ymholiadau: 01685 545 745
E-bost: publications@ic-foi.demon.co.uk

[1] Gall rhai darnau o wybodaeth fod yn gyfrinachol neu wedi eu heithrio o gyhoeddiad yn ôl y gyfraith. O ganlyniad nid ydym yn gallu cyhoeddi gwybodaeth o'r fath.

Cynllun Cyhoeddiadau Ysgol Gyfun rhydywaun

Atodiad A - Dogfennau eraill sydd gan yr ysgol

- **Cofrestr asbestos**
- **Polisi ymwelwyr**
- **Polisi Gwisg Ysgol**
- **Polisi defnyddio'r Rhyngrwyd**
- **Polisi Asesu, cofnodi ac adrodd**
- **Polisi gwaith cartref**
- **Polisi gwrth-fwlio**
- **Polisi presenoldeb a phrydlondeb**